Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Bwletin y Pwyllgor
Gwanwyn 2025 – Haf 2025

## Croeso i ddegfed bwletin y Pwyllgor!

Dyma'r degfed bwletin ar gyfer Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn y Senedd. Mae'n rhoi trosolwg o weithgareddau diweddaraf y Pwyllgor a'r gweithgareddau sydd ganddo ar y gweill, er mwyn eich helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor ac i ymgysylltu ag ef.

Cafodd y bwletin hwn ei baratoi gan y Tîm Clercio sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor. Os oes gennych unrhyw sylwadau, rhowch wybod i ni drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

### Manylion cyswllt

Gallwch anfon e-bost at Dîm Clercio'r Pwyllgor:
**SeneddEconomi@senedd.cymru**

Ffoniwch ni: 0300 200 6565

Dilynwch ni ar X **@SeneddEconomi**

Gwefan: **https://senedd.cymru/pwyllgorau/pwyllgor-yr-economi-masnach-a-materion-gwledig/**

## Croeso i'n Cadeirydd newydd

Hoffem gyflwyno Andrew RT Davies fel Cadeirydd newydd y Pwyllgor. Ar 7 Ionawr 2025, cafodd Andrew ei ethol yn Gadeirydd ar ôl i Paul Davies AS ymddiswyddo er mwyn cymryd rôl Rheolwr Busnes Grŵp y Ceidwadwyr. Mae Andrew wedi bod yn mwynhau ymchwilio i'r cylch gorchwyl ac arwain y Pwyllgor, ac mae'n diolch i Paul am ei holl waith gyda'r Pwyllgor.



## Gwaith Presennol

### Llwybrau Prentisiaeth

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i Lwybrau Prentisiaeth yn ystod tymor y gwanwyn, gan glywed tystiolaeth lafar gan amrywiaeth o randdeiliaid mewn pum sesiwn panel. Rhwng 12 Rhagfyr 2024 a 7 Chwefror 2025, fe gynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad fel rhan o'r ymchwiliad hwn, a chafodd 39 o ymatebion.

Mewn cysylltiad â'r ymgynghoriad hwn, cynhaliodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd raglen ymgysylltu, gan hwyluso grwpiau ffocws a chyfweliadau â phrentisiaid presennol a chyn-brentisiaid ledled Cymru i gael eu safbwyntiau a'u profiadau.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cyflwyno adroddiad yn ystod hanner cyntaf tymor yr haf.

### Hybu Cig Cymru

Mae'r Pwyllgor wrth'n cynnal ymchwiliad i Hybu Cig Cymru (HCC), gyda'r sesiynau llafar a ddechreuodd yn nhymor y gwanwyn yn parhau yn hanner cyntaf tymor yr haf.

Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad yn ystod ail hanner tymor yr haf.

### Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru

Hefyd, ar ddiwedd tymor yr hydref yn 2024, fe gynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr i Ddeallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru. Mae'r Pwyllgor wrthi'n llunio ei adroddiad, gyda'r bwriad o'i gyhoeddi yn gynnar yn y tymor nesaf.

### Iechyd y Pridd mewn Amaethyddiaeth

Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i Iechyd y Pridd mewn Amaethyddiaeth a bydd yn dechrau cymryd tystiolaeth lafar yn ei gyfarfodydd yn hanner cyntaf tymor haf 2025.

## Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE

Mae gwaith Pwyllgorau ar y cyd yn parhau ar yr Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad rhwng y DU a'r UE, gyda Hannah Blythyn AS yn cynrychioli'r Pwyllgor yn ystod sesiwn tystiolaeth lafar gyda Llywodraeth Cymru, a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ar 2 Ebrill 2025.

**Gweithgareddau Diweddar**

## Craffu ar y Gyllideb

Cynhaliodd y Pwyllgor waith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 ar 15 Ionawr 2025 a chyhoeddodd ei adroddiad ar 3 Chwefror 2025, sef y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad. Cynhaliwyd dadl ar y Gyllideb Ddrafft yn y Cyfarfod Llawn y diwrnod canlynol.

Cafodd y Pwyllgor ymatebion i'w adroddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, a'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar 3 Mawrth 2025.

Cynhaliwyd dadl a phleidlais ar y Gyllideb Derfynol yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Mawrth 2025.


## Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn i graffu ar waith y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn ymwneud yn benodol â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar 5 Chwefror 2025. Bu'r Pwyllgor yn ymdrin â meysydd o ddiddordeb a oedd yn cynnwys cerrig milltir y Cyfnod Paratoi, methodoleg talu, ffermwyr tenant a ffermwyr tir comin, a'r rheol 10% o gynefin.

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, fe ysgrifennodd y Pwyllgor at y Dirprwy Brif Weinidog ar 24 Chwefror 2025 i ofyn am ragor o wybodaeth.


## Yr Economi Werdd

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar yr Economi Werdd ar 14 Mawrth 2025, gyda dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y gweill ar gyfer tymor yr haf.




## Yr Economi Sylfaenol


Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i'r Economi Sylfaenol yn ystod tymor hydref 2024. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar y mater ar 17 Ebrill 2025.




## Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm

Trawodd Storm Darragh Ynysoedd Prydain ar benwythnos 7 a 8 Rhagfyr 2024, gan orfodi i Borthladd Caergybi gau yn sgil difrod i angorfeydd terfynfa 3 a therfynfa 5. Oherwydd y difrod a'r ffaith i derfynfa 3 aros ar gau o ganlyniad, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad undydd ar 6 Mawrth 2025.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan bedwar panel, gan gynrychiolwyr y diwydiant porthladdoedd, busnesau lleol a llywodraeth leol, arbenigwyr masnach a logisteg, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Llywodraeth Cymru. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar 3 Ebrill 2025.



## Blaenraglen Waith

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar ei raglen waith ar gyfer haf 2025. Mae'r rhaglen waith yn nodi amcanion y Pwyllgor adeg ei chyhoeddi, ond gall y rhaglen newid ar unrhyw adeg er mwyn ymateb i ddigwyddiadau allanol. Disgwylir i'r gwaith gynnwys ymchwiliadau i Fargeinion Dinesig a Bargeinion Twf, a Phrosesu Bwyd a Gwerth Ychwanegol, ochr yn ochr â'r ymchwiliad i Iechyd Pridd mewn Amaethyddiaeth. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar nifer o feysydd gwaith eraill ar gyfer tymor hydref 2025, ond mae angen cwmpasu rhagor ar y rhain i'w troi'n ymchwiliadau. Bydd rhagor o wybodaeth am y gwaith cwmpasu hwn yn cael ei chynnwys ar y wefan wrth iddo gael ei gytuno.

## Cylch Gorchwyl

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021, gyda chylch gorchwyl yn cwmpasu (ond heb fod yn gyfyngedig i): datblygu economaidd, adfywio, sgiliau, masnach, ymchwil a datblygu (gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth), a materion gwledig.

## Aelodau'r Pwyllgor



**Cadeirydd y Pwyllgor: Andrew RT Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru